

Bioreolaethau Ffrwythau Meddal

Erthygl Technegol

Isod mae rhai mathau cyffredin o fioreolaeth sydd ar gael ar gyfer cynydu ffrwythau meddal; i'w defnyddio'n effeithiol, dylech ymgynghori â chynghorydd sydd wedi'i hyfforddi gan BASIS.

Ar ôl eu derbyn, mae'n well defnyddio cynhyrchion bioreoli ar unwaith. Dylid eu storio mewn lle oer yn unol â chyfarwyddiadau'r label. Mae angen cadw'r rhan fwyaf o becynnau yn llorweddol. Dylid sicrhau eu bod nhw wedi'u cymysgu'n dda drwy'r amser.

Orius

Mae Orius yn ysglyfaethwr cyffredinol sy'n bwydo ar ystod eang o blâu; mae'n un o'r ychydig fio-reolyddion a fydd yn bwydo ar thripsod llawn dwf. Gall ymsefydlu'n dda ar gnydau llawn pail a gall gymryd 4-8 wythnos i sefydlu poblogaeth.



Oedolion Orius yn bwydo ar thripsod

- Maint: 2-3 mm
- Yn bwydo ar y canlynol: Paill, thripsod (prif ddewis o ran plâu), gwiddon coch dau smotyn, pryfed gwyn, wyau gwyfynod a nymffau lygus.
- Tymheredd optimwm: 18-25 °C (lleiafswm 15 °C)
- Lleithder optimwm: 70%
- Oes: 3-4 wythnos
- Cyfradd ataliol: 0.5 fesul m²
- Cyfraddau iachaol (Ysgafn / Trwm): 3.5 fesul m² / 5-10 fesul m².



Cymysgedd cludwr orius

- Dylid ei chwalu mewn clystyrau o 70-100 o unigolion gan y bydd yn annog bridio ac yn galluogi'r boblogaeth i Gronni. Mae'n well peidio ag amharu ar yr ardaloedd cyflwyno am ychydig ddyddiau ar ôl eu cyflwyno.
- Mae Orius yn dodwyr'r rhan fwyaf o'i wyau ar egin ochr; mae'n well ei chwalu ar ôl i egin ochr gael eu tynnu o'r cnwd.
- Ni ddylid ei ddefnyddio fel dull ataliol cyn i'r blodau cyntaf agor oherwydd heb ysglyfaeth, mae angen paill arnynt i oroesi.
- Dylid ei chwalu ar fore oer neu gyda'r nos, gan osgoi golau haul llachar.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Gwiddon ysglyfaethus – *Amblyseius (Neoseiulus) cucumeris*

Mae *Amblyseius cucumeris* yn ysglyfaethwyr cyffredinol sy'n gallu goroesi ar baill; maent yn dda iawn am ymosod ar wyau, gwiddon a thripsod larfaol.



***Amblyseius cucumeris* ar ddeilen (Llun ©Bioline)**

- Maint: 0.3mm
- Yn bwydo ar y canlynol: Larfâu thripsod, gwiddon coch dau smotyh, gwiddon llydan, gwiddon cyclamen.
- Tymheredd optimwm: 18- 31°C
- Lleithder optimwm: 65-75%
- Cyfradd ataliol: 50 fesul m²
- Cyfraddau iachaol (Ysgafn / Trwm): 250 – 500 fesul m²/ 250-500 fesul m²



Enghraifft o ddull gwasgaru sachau

- Mae gwiddon ysglyfaethus yn targedu ystod eang o rywogaethau thripsod ond dylid nodi eu bod yn targedu wyau a larfâu yn unig, nid oedolion.
- Yn ymledu trwy'r cnwd trwy ddail / coesyndau sy'n cyffwrdd. Gall y gwiddon fwydo ar baill yn ogystal â phlâu i ganiatáu ar gyfer dull ataliol yn absenoldeb plâu.
- Mae sachau o widdon ysglyfaethus yn gweithredu fel unedau bridio sy'n cynnwys ffynhonnell fwyd ac yn rhyddhau llif cyson o widdon dros ychydig wythnosau.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

Gwenyn parasitaidd

Mae gwenyn parasitaidd (a elwir yn barasitiaid) yn dodwy wyau y tu mewn i llyslau sydd, ar ôl deor, yn bwydo ar garcas y llyslauen, gan adael mymi ar ôl. Mae'n chwileru ac yna'n dod allan yn barod i barasiteiddio mwy o llyslau.



***Aphidius* spp. ger llyslauen
Mymi (lliw aur) ar ddeilen**

Maint: 2-4 mm

Yn bwydo ar y canlynol: Neithdar

Tymheredd optimwm: Llai na 28°C

Cyfradd ataliol: 0.25 fesul m²

Cyfraddau iachael (Ysgafn / Trwm):
1 fesul m² / 2 fesul m².



- Mae rhywogaethau parasitaidd yn targedu rhywogaethau penodol o llyslau, felly mae'n bwysig gwybod pa llyslau rydych chi'n eu targedu.
- Mae llawer o gynhyrchion yn gymysgedd o rywogaethau parasitaidd i helpu i gwmpasu gwahanol rywogaethau llyslau, ond cymerwch ofal wrth ddarllen am eu cwmpas.
- Gan eu bod yn gallu hedfan, mae'r gwenyn yn gallu symud trwy'r cnwd yn hawdd gan ganolbwyntio ar fferomonau sy'n cael eu rhyddhau gan blanhigion dan ymosodiad llyslau.
- Ar gyfer y dull ataliol gorau, dylid chwalu niferoedd llai bob wythnos pan fydd nifer y llyslau ar eu hanterth.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

Nematodau spp.- *Steinernema feltiae* neu

Steinernema kraussei

Mae'r nematodau parasitaidd hyn yn symud yn weithredol trwy'r parth pridd ac yn heintio ysglyfaeth; nid ydynt yn achosi niwed i gnydau ac maent yn ymosod ar eu plâu targed yn unig.



Nematodau wedi'u hail-atal o becyn

Maint: <0.1 mm

Yn bwydo ar y canlynol: Pryfed sciarid (*Steinernema feltiae*), larfâu thripsod a gwiddon gwinwydd du (*Steinernema kraussei*)

Tymheredd optimwm: 14-28°C

Lleithder optimwm: Uchel



Nematodau dadhyredig o becyn

- Mae'n bwysig sicrhau bod nematodau wedi'u cymysgu'n dda yn y tanc i'w dosbarthu'n gyfartal drwy'r cnwd.
- Mae'r nematodau yn teithio drwy'r pridd trwy leithder; os yw'r pridd yn rhy sych, yna bydd effeithiolrwydd yn gostwng wrth i'r nematodau frwydro i weithredu.
- Mae'r nematodau yn dod o hyd i ysglyfaeth yn ôl eu cynhyrchion

Am fwy o wybodaeth, gweler:

<https://www.biobestgroup.com/>

<https://www.biolineagrosciences.com/>

https://www.koppert.co.uk/?utm_term=redirect



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

